Tribiwnlys Prisio Cymru
Valuation Tribunal Wales

# Cynllun Gweithredol 2026/27

Carolyn Dawson Prif Weithredwr

## Cynnwys

1. Datganiad o ddiben

2. Amcanion Strategol

3. Nodau ar gyfer 2026/27

**Atodiadau:**

A Amcanion a mesurau manwl i werthuso Amcanion Strategol [KPI's]
B Cofrestr Risg Strategol
C Strwythur Trefniadaethol

## 1. Datganiad o Ddiben

### 1.1. Rôl y Tribiwnlys a'i Wasanaethau

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn pennu apelau trethiant lleol a godir gan ddinasyddion a busnesau Cymru. Gellir cyflwyno apelau ynglŷn â:

- Prisio eiddo at ddibenion y dreth gyngor ac ardrethi annomestig
- Dilysrwydd cynnig i newid prisiad eiddo ar gyfer y dreth gyngor
- Cosbau am beidio â darparu gwybodaeth am eiddo
- Statws cwblhau eiddo newydd at ddibenion bilio
- Mesurau yn erbyn osgoi Ardrethi Annomestig
- Atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor
- Rhychwant atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, gan gynnwys disgowntiau, eithriadau, a gostyngiadau
- Prisio eiddo at ddibenion ardrethi draenio

Caiff Awdurdodau Bilio wneud cais i TPC hefyd am gymeradwyaeth i archwilio hereditament.

Mae TPC yn darparu ei wasanaethau yn rhad ac am ddim gan nad oes ganddo rym dyfarnu costau.

Yn hanesyddol, byddai'r Swyddfa Brisio (VO) yn cyfeirio apelau prisio eiddo heb eu datrys yn awtomatig at y Tribiwnlys. Fodd bynnag, ers 1 Ebrill, 2023, rhaid i apelau ardrethu gael eu cofrestru'n uniongyrchol gyda'r Tribiwnlys gan y parti tramgwyddedig. O 1 Chwefror 2026, mae trosglwyddo apelau treth gyngor yn awtomatig wedi dod i ben hefyd, a chyflwynodd deddfwriaeth broses apelio uniongyrchol ar gyfer achosion pan fydd apelydd yn anghytuno â phenderfyniad y VO.  Yn yr un modd, rhaid i apelau yn erbyn penderfyniadau treth gyngor a wnaed gan awdurdodau bilio gael eu cofrestru'n uniongyrchol gan yr apelydd. Hefyd, mae gan awdurdodau bilio bwerau codi cosbau, yn debyg i'r rhai sydd ar gael i'r VO, a gellir dwyn apelau yn erbyn cosbau o'r fath gerbron y Tribiwnlys. Ar ben hynny, gellir apelio anghydfodau am hysbysiadau cwblhau a gyflwynir gan awdurdodau bilio ar gyfer eiddo newydd neu heb ei restru yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys.

### 1.2. Pwrpas y Tribiwnlys a'i Wasanaethau

Mae TPC wedi'i ymrwymo o hyd i roi asesiad annibynnol o anghydfodau trethiant lleol, gan gynnig y llwybr cyntaf ar gyfer unioni annibynnol i ddinasyddion a busnesau. Mae'r fforwm hygyrch hwn yn caniatáu i unigolion gyflwyno eu hachosion heb reolau llys ffurfiol. Fel arfer caiff achosion eu clywed gan banel tri pherson o wirfoddolwyr di-dâl, wedi'u hyfforddi, gyda chymorth clerc proffesiynol. Caiff y rhan fwyaf o anghydfodau eu datrys ar y lefel hon, gyda grym cyfreithiol i benderfyniadau'r tribiwnlys. Ychydig o achosion yn unig sy'n mynd ymlaen i'r uwch lysoedd.

Amcan y Tribiwnlys yw darparu mynediad hygyrch, cost isel, ac anffurfiol i gyfiawnder i ddinasyddion a busnesau Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ddarparu'n effeithiol ers i Ddeddf Llywodraeth Leol 1948 gyflwyno Llysoedd Prisio Lleol.

## 1.3. Yr Amgylchedd Gweithredu a Llywodraethiant

### 1.3.1. Perthynas â Llywodraeth Cymru a'r Cytundeb Fframwaith

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC) yw TPC, a grëwyd gan statud ac a gyllidir gan arian cyhoeddus. Mae ganddo gytundeb fframwaith â Llywodraeth Cymru sy'n amlinellu cyfrifoldebau ar y cyd am lywodraethiant, doethineb ariannol, ac atebolrwydd i Weinidogion Cymru. Mae'r Ddogfen Fframwaith wedi cael ei hadolygu a dylai gael ei chymeradwyo yn fuan.

### 1.3.2. Trefniadau Cyllido

Pennir cyllid y Tribiwnlys yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, gan ystyried llwyth gwaith, ymrwymiadau ariannol, a chynlluniau i'r dyfodol. Telir y cyllid yn chwarterol, gyda Llywodraeth Cymru'n monitro'r gwariant misol. Cynhwysir adroddiad am wariant yn adroddiad blynyddol y Tribiwnlys. Mae'r Prif Weithredwr, sy wedi'i ddynodi yn ddeiliad cyllideb, yn atebol yn bersonol yn unol â gweithdrefnau cyfrifyddu'r llywodraeth.

Gan edrych ymlaen at 2026/27, mae TPC mewn lle da i gwrdd â'i rwymedigaethau a thargedau, ar ôl sicrhau cyllideb sylfaenol newydd o £1.997 miliwn.

### 1.3.3. Archwilio a Rheoli Risg

Gall y Tribiwnlys drefnu archwiliadau mewnol trwy gyflogi contractwyr neu ddibynnu ar Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Cynhelir archwiliadau allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ymdrinnir â rheoli risg o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwyr Gweithredol, gyda chofrestr risgiau sy'n cael ei chynnal a'i chraffu gan y Cyngor Llywodraethu.

## 1.4. Strwythur Trefniadaethol ac Aelodaeth

Mae TPC yn endid cyfreithiol statudol gydag aelodaeth sy'n ethol llywydd a thri chynrychiolydd cenedlaethol i'r Cyngor Llywodraethu. Mae'r Cyngor yn cyfarwyddo'r Tribiwnlys ar ran yr aelodaeth. Caiff Gweinidogion Llywodraeth Cymru benodi hyd at dri aelod i'r Cyngor.

Mae'r Cyngor Llywodraethu yn gyfrifol am:

- Goruchwylio'r Tribiwnlys yn gyffredinol a sut mae'n darparu ei wasanaeth.
- Cyfeiriad strategol.
- Sicrhau cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol corfforaethol y Tribiwnlys (gan gynnwys iechyd a diogelwch, diogelu data, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a safonau'r Gymraeg) ac â'r Ddogfen Fframwaith a wnaed gan Weinidogion Cymru.
- Llunio polisi.
- Penodi prif weithredwr.
- Pennu'r strwythur staffio a lefelau aelodaeth.

Erbyn hyn, mae dau benodai Llywodraeth Cymru wedi cael eu penodi a byddant yn cymryd eu swyddi ar 1 Ebrill 2026, gan liniaru'r risgiau gweithredol a adroddwyd o'r blaen.

### 1.5. Darpariaeth a safonau'r Gymraeg

Mae’r Tribiwnlys yn glynu wrth safonau’r Iaith Gymraeg ac yn cael ei oruchwylio gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae **dau ddeg un y cant** o’r staff a **thri deg un y cant** o’r aelodaeth yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Ymhlith y staff sy’n weddill, mae ystod o hyfedredd yn y Gymraeg.

Mae’r Tribiwnlys yn hybu datblygu sgiliau Cymraeg yn frwd, ac mae **chwech aelod staff** wedi dilyn cwrs Cymraeg i ddechreuwyr, a **thri aelod staff** yn cymryd rhan ar hyn o bryd mewn sesiynau gloywi unwaith yr wythnos.

Pwysleisir sgiliau iaith ym mhob proses recriwtio am swyddi, a chefnogir hyn gan dabl lefelau wedi’i ddatblygu a gynhwysir ym mhob pecyn recriwtio. Ar hyn o bryd, mae’r galw am wrandawiadau apêl Cymraeg yn isel, gyda **chwech yn unig o'r pedwar deg chwe** thribiwnlys a alwyd ar gyfer gwrandawiadau Prisio Treth Gyngor ag apelau Cymraeg wedi'u rhestru wrthynt. Fodd bynnag, mae’r Tribiwnlys yn barod i reoli cynnydd sylweddol yn y galw gyda’r adnoddau presennol os bydd yn codi.

## 2. Amcanion Strategol

a. **Cyfiawnder i Bobl Cymru**
    - Darparu system apelau effeithlon, annibynnol, deg, hygyrch, ac arbenigol ar gyfer materion yn ymwneud â threthiant lleol.
    - Gwneud penderfyniadau ansawdd uchel, amserol, a chyfreithlon.

b. **Trefniadaeth Effeithlon**
    - Strwythuro a threfnu’r Tribiwnlys mewn modd costeffeithiol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaethau.
    - Ymaddasu, moderneiddio, a gwella mewn ymateb i ofynion diwylliannol a deddfwriaethol cyfnewidiol.

c. **Gwerth am Arian**
    - Cwrdd â gofynion cyllidebol Gweinidogion Cymru a rheoli adnoddau cyhoeddus yn gyfrifol yn unol â fframwaith “Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".

ch. **Gwella ac Arloesi’r System Apelio**
    - Rhoi barn arbenigol ar y system apelio i gyrff sy’n gwneud polisi a rhanddeiliaid eraill.

## 3. Nodau ar gyfer 2026/27

Nod TPC yw cyflawni ei amcanion strategol yn y flwyddyn i ddod trwy sicrhau bod yr holl nodau canlynol yn cael eu diwallu a’u monitro, cyn belled ag y bo’n ymarferol yn rhesymol, yn unol â KPIs y corff fel y’u gosodir yn Atodiad A.

**Cyfiawnder i Bobl Cymru**

- Trefnu rhwng 90 a 140 o gyfarfodydd tribiwnlys dros y flwyddyn weithredol.
- Rhestru’r apelau sy’n weddill o Restr Ardrethu 2017 (gan gynnwys achosion Uned Arbenigol).
- Rhestru unrhyw apelau Rhestr Ardrethu 2023/26 o fewn chwe mis i’w derbyn.
- Apelau AAN yn erbyn Rhestr Ardrethu 2023/2026 i’w clirio o fewn 12 mis i’w cyflwyno i’r Tribiwnlys.

- Rhestru unrhyw apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn chwe mis i'w derbyn.
- Cyflawni canran uchel o restriadau tro cyntaf gan esgor ar ddatrys apelau.
- Cyflwyno rhesymau ysgrifenedig am benderfyniadau o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad yr apêl.

**Trefniadaeth Effeithlon**

- Recriwtio hyd at bum Clerc i sicrhau parhad gwasanaeth a pharatoi ar gyfer apelau yn deillio o ailbrisio AAN 2026 ac ailbrisio'r Dreth Gyngor 2028.
- Parhau â datblygiad proffesiynol staff.
- Annog dysgu am arweinyddiaeth a rheoli.
- Cymryd pob cyfle i recriwtio mwy o aelodau lleyg i sicrhau cynllunio ar gyfer olyniaeth i baratoi am ailbrisio'r Dreth Gyngor 2028 a diwygio trethiant lleol arall.
- Recriwtio hyd at 6 Chadeirydd o'r aelodaeth bresennol.
- Cynnal y lefelau hyfforddiant cynyddol i staff ac aelodau.
- Talu anfonebau o fewn amserlenni penodedig – talu anfonebau o fewn 10 diwrnod gwaith lle na cheir anghydfod.
- Sicrhau bod y system TG yn addas i'w diben.
- Parhau i ddatblygu'r gyfres o fideos hyfforddi aelodau i'w defnyddio ar borth yr aelodau ar wefan TPC.
- Lansio Gwefan newydd TPC a pharhau i ddatblygu cynnwys fideo ar gyfer y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Annog a pharhau ymgysylltu rhanddeiliaid â Llywodraeth Cymru, VO, IRRV a chyrff proffesiynol eraill, a phob rhanddeiliad arall.
- Cyfrannu at drafod a chydweithio ag Uned Bolisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â mentrau diwygio tribiwnlys ehangach a'u heffaith ar ddarpariaeth a pharhad gwasanaethau.

**Gwerth am Arian**

- Monitro effeithlonrwydd yn ôl cost fesul apêl.
- Monitro absenoldeb staff.
- Monitro'r defnydd o'r swyddfa newydd yn Llanelwy [daw'r brydles gyfredol i ben ddiwedd Ionawr 2027].
- Annog a monitro gweini hysbysiadau yn electronig.

**Gwella ac arloesi'r system apelio**

- Parhau i archwilio a monitro anghenion staffio TG.
- Sicrhau gwella a datblygu TG trwy:
    - Gweithredu pyrth er mwyn i bob ffrwd apelio gael ei chyflwyno'n ddigidol ar ôl llwyddo i weithredu pyrth ar gyfer apelau Prisio AAN a'r Dreth Gyngor.
    - Parhau i hyfforddi a monitro cyflwyno iPads i Aelodau'r Tribiwnlys.
    - Ail-lansio gwefan TPC.

Trwy ganolbwyntio ar yr amcanion a'r nodau hyn, bydd TPC yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, hygyrch, ac effeithlon i ddinasyddion a busnesau Cymru.

| Mesur perfformiad | Targed 2025/26 | Canlyniad 2025/26 | Targed ar gyfer 2026/27 | Rheswm am unrhyw newid targed / neu fanylion / gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfiawnder i Bobl Cymru** | | | | |
| Rhestru unrhyw apêl rhestr ardrethu 2023 o fewn chwe mis i’w derbyn | 95% | 100% | 95% | Bellach, mae apelau’n cael eu cyflwyno’n uniongyrchol i TPC, ac mae angen iddo sicrhau yr ymdrinnir â nhw mewn dull amserol. |
| Apelau AAN yn erbyn Rhestr Ardrethu 2023 i’w clirio o fewn 12 mis i’w cyflwyno i’r Tribiwnlys. | 95% | 100% | 95% | Mae angen clirio apelau'n bwyllog. |
| Rhestru unrhyw apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) o fewn chwe mis i’w derbyn | 95% | 56% | 95% | Cafwyd 1,117 o restriadau tro cyntaf ar gyfer apelau Treth Gyngor ac o'r rhain, cwrddodd 631 (56%) â'r targed chwe mis. Cyflawnwyd hyn er gwaethaf niferoedd uchel o apelau a llai o gapasiti rhestru oherwydd oedi a achoswyd gan faterion yn ymwneud â system TG y Swyddfa Brisio. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu perfformiad cryf gan TPC o dan bwysau gweithredol sylweddol. |
| Apelau Treth Gyngor (prisio ac atebolrwydd) i’w clirio o fewn 12 mis i’w cyflwyno i’r Tribiwnlys | 95% | 87.5% | 95% | Roedd 996 allan o 1138 o’r cliriadau yn ymwneud ag achosion oedd yn llai na 12 mis oed; mewn gwirionedd, cofrestrwyd 12.5% o’r achosion hynny a gliriwyd fel apelau am dros 12 mis cyn iddynt gael eu datrys. Niferoedd uwch na'r arfer o apelau a llai o restriadau, ar gais y Swyddfa Brisio oherwydd materion yn ymwneud â'r system TG |

| Mesur perfformiad | Targed 2025/26 | Canlyniad 2025/26 | Targed ar gyfer 2026/27 | Rheswm am unrhyw newid targed / neu fanylion / gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| | | | | newydd, oedd y prif ffactorau am beidio â chwrdd â'r KPI. |
| Penderfyniadau i'w cyhoeddi o fewn 28 diwrnod i ddiwedd gwrandawiad apêl | 95% | 96% | 95% | Cyhoeddwyd 18 allan o 458 o benderfyniadau (4%) y tu allan i'r targed 28 diwrnod. |
| Ceisiadau am adolygu penderfyniad AAN fel canran o achosion AAN a benderfynwyd | <0.50% | 0% | <0.50% | Ni chafwyd ceisiadau am adolygu penderfyniadau i'r math yma o apêl. |
| Ceisiadau am adolygu penderfyniad PDG fel canran o achosion PDG a benderfynwyd | <2.0% | 1.7% | <2.0% | 6 chais o 348 o benderfyniadau (honnodd 4 nad oeddynt wedi derbyn hysbysiad am wrandawiad fel rheswm am beidio ag ymbresenoli). |
| Ceisiadau am adolygu penderfyniad ADG fel canran o achosion ADG a benderfynwyd | <5.0% | 0% | <5.0% | Ni chafwyd ceisiadau am adolygu penderfyniadau i'r math yma o apêl. |
| Canran o restriadau tro 1af sy'n esgor ar ddatrys apelau. | 75% | 80.5% | 75% | 1000 allan o gyfanswm o 1242 o restriadau tro 1af yn esgor ar glirio'r apêl. |
| Penderfyniadau sy'n cael eu cyfeirio i'r uchaf lysoedd. | <0.50% | 0.4% | <0.5% | 2 atgyfeiriad o 458 o benderfyniadau. |
| Penderfyniadau sy'n amodol ar gŵyn parti | <1.0% | 0% | <1.0% | 0 cwynion yn erbyn penderfyniadau. |
| **Trefniadaeth Effeithlon** | | | | |
| Nifer o hawliadau â sail dda iddynt a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y Tribiwnlys | sero | sero | sero | |
| Nifer o faterion cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg â sail dda iddynt a wnaed yn erbyn y Tribiwnlys | sero | sero | sero | |

| Mesur perfformiad | Targed 2025/26 | Canlyniad 2025/26 | Targed ar gyfer 2026/27 | Rheswm am unrhyw newid targed / neu fanylion / gwybodaeth bellach |
|---|---|---|---|---|
| **Gwerth am Arian** | | | | |
| Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul gweithiwr am absenoldeb salwch i beidio â bod yn hwy na 5 diwrnod gwaith. | <5 diwrnod | 16.3 diwrnod | <5 diwrnod | Mae'r ffigur wedi'i ystumio gan salwch staff tymor hir. Nifer cyfartalog y dyddiau salwch fesul gweithiwr, o dynnu'r degraddau uchaf ac isaf, oedd 2 ddydd. |
| Talu anfonebau o fewn amserlen benodedig. | 90% | 100% | 90% | Oni bai bod rhyw anghydfod am y swm a anfonebir. |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi a ddarperir i holl staff TPC. | 6 | 16 diwrnod | 6 | Aethpwyd dros y KPI o chwe diwrnod hyfforddi eleni oherwydd bod y Clercod wedi gwneud amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi allanol i adeiladu eu sgiliau a'u cymhwysedd proffesiynol, gan esgor ar gofnodi cyfanswm uwch o ddiwrnodau hyfforddi. |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi a ddarperir i'r aelodaeth. | 2 | 9 diwrnod | 2 | Aethpwyd dros y KPI dau ddiwrnod o hyfforddiant gan fod yr hyfforddi wedi'i ymestyn yn fwriadol oherwydd niferoedd is o apelau, gan alluogi ymgysylltu parhaus a diweddaru gwybodaeth yr aelodau. |
| Canran hysbysiadau'r tribiwnlys a weinir yn electronig. | 80% | 88% | 80% | Yn unol ag ymgyrch TPC am brosesau di-bapur, yr un pryd â sicrhau bod y dinasyddion hynny heb fynediad at wasanaethau electronig heb fod dan anfantais. |
| Canran yr apelau Rhestr Ardrethu 2023 sy'n cael eu cyflwyno gan ddefnyddio porth ar-lein TPC. | 90% | 94% | 90% | Er bod TPC yn annog defnyddio ei borth electronig, mae angen iddo gynnal ei hygyrchedd trwy gyfryngau sy ddim yn ddigidol hefyd. |

COFRESTR RISG STRATEGOL 2026/27

| Adnabod ac asesu risg | | | | | | | | | | Gweithredu arfaethedig i reoli'r risg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyf. | Disgrifiad o'r Risg | Risg Gynhenid | | | Mesurau Rheoli Risgiau [Goddef, Trosglwyddo, Trin] | Risg Weddilliol | | | Agosrwydd | Gweithredu Pellach | Amserlen | Dyddiad adolygu | Perchennog |
| | | Effaith | Tebygolrwy | Sgôr Gyffredinol | | Effaith | Tebygolrwy | Sgôr Gyf | | | | | |
| V1 | Gall rhoi cynigion diwygio tribiwnlys Llywodraeth Cymru ar waith newid strwythurau, awdurdodaeth, a gweithdrefnau, gan greu ansicrwydd am ddyfodol y gwasanaeth. Gallai hyn arwain at fwy o lwyth gwaith, tarfu trefniadaethol, a gofynion ymaddasu sylweddol, gydag effeithiau posibl ar gyflwyno gwasanaethau yn ogystal â chapasiti, morâl, a chadw staff ac aelodau. | 4 | 4 | 16 | Trin – Sicrhau bod staff ac aelodau yn cael eu diweddaru gyda'r wybodaeth gyfredol ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig a bod prosiect Diwygio'r Tribiwnlys yn ymwybodol o effeithiau posibl wrth i'r rhaglen gael ei datblygu. Bydd angen i reolwyr geisio lleddfu pryderon trwy fod yn agored ac yn rhagweithiol gyda'r aelodau a'r staff. Bydd angen recriwtio pellach os ceir colledion o hyd. | 4 | 3 | 12 | | Bydd ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol. Dylid mynd ati i fonitro datblygiadau polisi wrth iddynt ddod i'r amlwg, ochr yn ochr â chynllunio senario i ragweld newidiadau posibl. Dylid cynnal asesiad effaith cychwynnol unwaith mae TPC yn gwybod am y cynigion diwygio. | Parhaus | Yn ôl y gofyn | PSG |
| V2 | Os byddwn yn methu â recriwtio a chadw digon o aelodau newydd, bydd aelodaeth TPC yn aros o dan y nifer a ddymunir, yn mynd yn fwy fwy hen, ac yn annigonol i gefnogi amserlennu gwrandawiadau TP mewn blwyddyn o ailbrisio. | 5 | 3 | 15 | Trin – Parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio rhagweithiol i gadw lefelau aelodaeth priodol. Ysgogi'r cyfryngau cymdeithasol a sianeli eraill i ddenu aelodaeth fwy eang ac amrywiol. | 5 | 3 | 15 | | Codi proffil TPC drwy gymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol ar draws Cymru a Lloegr i hybu ymwybyddiaeth ac ysgogi diddordeb mewn dod yn aelod. Gwella presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gynnwys wedi'i dargedu'n fwy, mwy dengar, a chyson i estyn cyrhaeddiad a hybu ymgysylltu. | Parhaus | | PSG/Rheolwyr Gweithredol |
| V3 | Mae gweithlu sy'n heneiddio, gyda chyfran sylweddol o staff yn agosáu at oedran ymddeol yn creu risg o nifer yn ymadael o fewn cyfnod byr. O gyfuno hyn ag effeithiau posibl diwygio'r tribiwnlys, fe all leihau capasiti a gwydnwch y gweithlu, gyda'r gwasanaeth yn agored i anawsterau o ran rheoli llwyth achosion yn effeithiol. | 5 | 2 | 10 | Trin - Rhoi mesurau ar waith i gadw gwybodaeth drefniadaethol a chapasiti staff trwy drosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol a mentrau dargadw priodol. | 4 | 2 | 8 | | Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Creu cynllunio olyniaeth ymarferol. Cyflwyno mentrau dargadw fel mentora, opsiynau gweithio hyblyg ac opsiynau i ymddeol yn raddol lle bo modd. | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| V4 | Os na chaiff gweithrediadau ariannol eu hadolygu a'u rheoli'n effeithiol, yna mae risg y gall TPC orwario ei gyllideb ddyranedig, gan effeithio ar gynaliadwyedd ariannol a chyflawni gweithredol. | 4 | 1 | 4 | Trin – Monitro ac adrodd am gyllidebau'n rheolaidd. | 3 | 1 | 3 | | Cynnal ac adeiladu ar y rheolaethau ariannol cadarn a'r prosesau cymeradwyo clir a sefydlwyd gan y Swyddog Ariannol, gan sicrhau goruchwylio ac atebolrwydd effeithlon parhaus. Sicrhau trosglwyddo gwybodaeth i greu cynllunio olyniaeth clir ac ymarferol. | Monitro'n gyson | Yn ôl y gofyn | PSG |
| V5 | Os caiff y gyllideb ei lleihau'n sylweddol, yna gall fod angen lleihau lefelau staffio, gan effeithio ar gapasiti TPC i gyflwyno gwasanaethau a chwrdd â thargedau perfformiad. | 3 | 2 | 6 | Trin – Rhoi monitro ariannol rheolaidd a chynllunio gweithlu ar waith, blaenoriaethu adnoddau'n effeithiol, dilyn mesurau effeithlonrwydd, ac ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth Cymru ar ofynion cyllido. | 2 | 2 | 4 | | Cadw ymgysylltu'n gyson ac yn effeithiol â thîm noddi LIC i sicrhau ymwybyddiaeth amserol o unrhyw leihad posibl i'r gyllideb. | Parhaus | Yn ôl y gofyn | PSG |
| V6 | Os bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno newidiadau rheoleiddiol neu ddeddfwriaethol i drethiant lleol, neu os yw'n cyflwyno llif apelio newydd, yna gall niferoedd apelau a phwysau llif gwaith gynyddu. Neu os yw'r ailbrisiadau yn creu ymchwydd o ran apelau, gall llif gwaith fod yn fwy na chapasiti staffio ac aelodau gan achosi oedi a straen gweithredol. | 5 | 3 | 15 | Trin – Ymgysylltu'n frwd â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod newidiadau polisi arfaethedig neu rai sy'n dod i'r amlwg, yn cael eu cyfleu yn gynnar, eu deall yn llawn, a'u craffu'n briodol, gan asesu, trafod, a lle bo modd, ddylanwadu ar y goblygiadau i'r gwasanaeth. | 3 | 2 | 6 | | Cadw ymgysylltu'n gyson ac yn effeithiol â thîm noddi LIC i sicrhau ymwybyddiaeth amserol o unrhyw newidiadau posibl. Cyfleu'r risgiau i'r CLI. | Parhaus | Yn chwarterol | PSG/Rheolwyr Gweithredol |
| V7 | Os yw system TG yn methu, yn dioddef ymosodiad seiber, neu'n profi diffoddiad mawr, yna gall swyddogaethau statudol a chyflwyno gwasanaethau gael eu hamharu'n sylweddol. | 5 | 4 | 20 | Trin – Sicrhau bod copïau wrth gefn o'r systemau yn cael eu gwneud yn rheolaidd mewn lleoliadau lleol ac oddi ar y safle (byd-eang) er mwyn medru adfer y gronfa ddata yn llawn. Profi adfer data rheolaidd i gadarnhau y gall copïau wrth gefn gael eu hadennill yn llwyddiannus ac i bennu faint o amser sydd ei angen i adfer systemau ac ailgychwyn gweithrediadau normal. | 4 | 2 | 8 | | Sicrhau bod copïau ffisegol wrth gefn yn cael eu cadw mewn lleoliad diogel ar wahân (e.e. swyddfa Llanelwy). Adolygu a gwirio'n rheolaidd fod y gweithdrefnau copi wrth gefn yn aros yn gadarn ac yn effeithiol. Datblygu cynllun ymateb ar frys cynhwysfawr ar gyfer digwyddiadau mawr, a sicrhau bod yr holl staff TG a'r Tîm TG yn llwyr ymwybodol o'r cynllun a'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol oddi mewn iddo. | Parhaus | Yn chwarterol | PSG/Rheolwyr Gweithredol |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| V8 | Os caiff data sensitif ei gam-drin, neu os caiff data ei golli neu os bydd methiant o ran diogelwch, yna mae risg o dor diogelwch data a niwed i enw da TPC. | 4 | 3 | 12 | Trin – Cyflwyno polisi diogelwch gwybodaeth cynhwysfawr ochr yn ochr â pholisi cadw dogfennau clir, wedi'u cefnogi gan hyfforddiant GDPR i'r holl staff. Sicrhau bod y data yn cael ei drin yn ddiogel drwy'r amser a'i ddiogelu trwy drefniadau cadw copi wrth gefn cadarn yn lleol ac oddi ar y safle. | 3 | 2 | 6 | | Cynnal hyfforddiant GDPR a diogelu data gorfodol i'r holl staff. Cyflwyno arferion desg glir a sgrin glir lle bo'n briodol. Sicrhau ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth barhaus â'r gofynion rheoleiddiol cyfredol ac arfer orau. | Parhaus | Yn chwarterol | PSG/Rheolwyr Gweithredol |
| V9 | Gan fod system TG TPC wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, mae dibyniaeth ar staff a chontractwyr TG allweddol. Os yw'r unigolion hyn yn ymadael, gall cynnal a datblygu system critigol gael eu hamharu, gyda'r potensial o esgor ar fethiannau system neu oedi o ran gwella'r system rheoli achosion. | 5 | 4 | 20 | Trin – Datblygu trefniadau cynllun wrth gefn cynhwysfawr i fynd i'r afael â phwyntiau unigol o fethiant, gan gynnwys creu a chynnal dogfennaeth dechnegol ddiweddar, fanwl yn cynnwys saernïaeth, cod, a dibyniaethau system. Gweithredu prosesau trosglwyddo gwybodaeth strwythuredig, sicrhau rhannu gwybodaeth parhaus ar draws y tîm TG. | 3 | 2 | 6 | | Sicrhau trosglwyddo gwybodaeth i greu cynllunio olyniaeth clir ac ymarferol. | Parhaus | Yn chwarterol | PSG/Rheolwyr Gweithredol |
| V10 | Os nad oes lle swyddfa ar gael neu os yw'n cael ei amharu, yna gellir effeithio ar weithrediadau a chyflwyno gwasanaethau statudol. | 4 | 2 | 8 | Trin – Sicrhau yr ymgymerir â thrafodaethau prydles amserol yn ôl y gofyn, wedi'u cefnogi gan bolisi gweithio o bell trefniadaethol clir, cyfathrebu tîm cyson ac effeithiol, a rhoi cynlluniau parhad busnes ar waith mewn sefyllfaoedd argyfyngus. | 3 | 1 | 3 | | Cynnal cofrestr brydles gynhwysfawr a diweddar. Ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn gynnar â landlordiaid i gefnogi cynllunio a gwneud penderfyniadau effeithiol. | Parhaus | Yn chwarterol | PSG |
| V11 | Os bydd argyfwng iechyd neu bandemig eang yn digwydd, gallai cynnydd yn absenoldebau staff arwain at gyfyngiadau gweithredol ac amharu ar gyflwyno gwasanaethau, gyda'r potensial i effeithio ar allu'r corff i gynnal gweithrediadau normal. | 5 | 1 | 5 | Trin – Mae cyflwyno gwrandawiadau o bell yn lliniaru'r risg hon yn sylweddol, gan sicrhau parhad gweithredol a lleihau'r tebygolrwydd o TPC yn methu â gweithredu'n effeithiol o dan amgylchiadau o'r fath. | 3 | 1 | 3 | | Cynnal ac adolygu'r Cynllun Parhad Busnes yn rheolaidd, gan sicrhau ei fod yn aros yn effeithiol ac yn ddiweddar. Datblygu a rhoi ar waith gynllun ymateb i argyfwng cynhwysfawr ar gyfer digwyddiadau mawr, a sicrhau bod yr holl fanylion perthnasol yn cael eu cyfleu i'r staff a'u bod yn eu deall. | Parhaus | Yn flynyddol | PSG/Rheolwyr Gweithredol |

**Nodiadau:**

**Col (1) Rhif cyfeirnod.**

**Col (2) Disgrifiad o'r risg gan gynnwys achos a chanlyniad yn y fformat "Os" … "yna". Lle bo modd dylid cysylltu risgiau posibl â chynlluniau busnes.**

**Col (3) & (4) Sgôr risg gynhenid - Cysylltiad sy'n codi o risg cyn unrhyw weithredu i'w rheoli.**

**Col (5) Sgôr risg weddilliol - Asesu risg gyda mesurau rheoli ar waith.**

**Col (6) Yn cynnwys mesurau sydd eisoes yn eu lle. Dim ond gweithredoedd sydd yn eu lle a all gael eu defnyddio wrth bennu'r sgôr weddilliol.**

**Hefyd dylid dangos yr ateb i bob risg naill ai - Goddef, Trosglwyddo, Trin neu Terfynu.**

**Col (7), (8) & (9) Sgorau Risg Weddilliol - Asesu risg gyda mesurau rheoli ar waith**

**Col (10) Agosrwydd – Dylid adlewyrchu amseriad posibl y risg yn ymddangos h.y. a yw'r bygythiad / cyfle yn gryfach ar adeg benodol gan ddefnyddio'r raddfa:**

**Du - Tymor byr 0-3 mis; Llwyd - Tymor canolig 4-12 mis; Glas - Tymor Hir 13 mis+**

**Col (11) Cofnodi rheoli neu weithredu lliniarol wedi'u cynllunio ac ar y gweill i gynnal neu leihau'r risg i lefel dderbyniol.**

**Col (12) Amserlen y gweithredu a gynigir os yw'n hysbys.**

**Col (13) Dyddiad adolygu'r risg, yn chwarterol ar y lleiaf.**

**Col (14) Person sydd ag atebolrwydd am y risg.**


**E = Effaith (Asesiad o ganlyniadau'r risg yn ymddangos, sgôr 1-5)**

**T = Tebygolrwydd (Asesiad o debygolrwydd risg yn ymddangos, sgôr 1-5)**

**S = Sgôr Gyffredinol (Effaith x Tebygolrwydd)**

**Statws COG – Coch, Oren, Gwyrdd (Coch 15-25, Oren 4-14, Gwyrdd 1-3).**

# Tribiwnlys Prisio Cymru - Strwythur Trefniadethol 26/27




Tribiwnlys Prisio Cymru
Valuation Tribunal Wales